
GRAFFEG

ABC yr Opera

# ABC yr Opera: Clasurol




Awdur: Mark Llewelyn Evans
Darlunydd: Karl Davies
Oed: 7-9
Fformat: Clawr meddal
Iaith: Cymraeg
Maint: 200 x 250mm
Cyhoeddiad: April 2021
Pris: £8.99

Gwefannau'r awdur a'r darlunydd:
**https://abcofopera.com/**
**http://markllewelynevans.co.uk/**
**http://www.karlpic.co.uk/**

## Clawr

**Dewch i drafod**

Y clawr. Cyflwynwch y teitl a'r awdur. Pwy yw'r dylunydd? Beth yw ei waith?


Pwy gallwn weld? Tybed ble mae Megan a Jac? Oes yna unrhyw gliwiau? Pwy yw'r cymeriadau tybed? / Fedrwch chi gofio pwy yw'r cymeriadau?

**Dewch i greu**

Gwnewch arddangosfa ABC ac ychwanegwch y deunyddiau a grewyd gan y plant er enghraifft: lluniau, ffotograffau, rhestri, disgrifiadau a pheintiadau.

**Dewch i ddarlunio**

Darluniwch llun ohonoch chi a'ch ffrind gan efelychu dull Karl Davies.




## Clawr mewnol ddwbwl

**Dewch i adrodd/ ganu**

Dysgwch y geiriau i gân ABC.

Sganiwch y côd QR a gwrandewch ar y gân.

Fedrwch chi enwi'r offerynnau ar y dudalen?


**Dewch i gyflwyno**

O dan teitl y llyfr mae yna gymeriad newydd – Tybed pwy allai fod? Trowch i dudalen 67 i gyflwyno Wolfgang Wyntog.

**Dewch i wneud**

Anogwch y plant i ysgrifennu neu ddarlunio disgriflun o'u hunain (pen portrait) gan ddilyn patrwm y cyfansoddwyr – crewch llyfr amdanom ni a'i osod ar yr arddangosfa.

Nodiadau Addysgu *ABC yr Opera: Clasurol*. Cedwir pob hawl. Ysgrifenwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.




## Tudalen 2 & 3

**Dewch i ddarllen**

Darllenwch ar goedd y llythyr oddi wrth Professore Peri – ydy'r plant yn cofio beth ddigwyddodd yn yr antur cyntaf? Cyflwynwch yr eirfa Eidalaidd, defnyddiwch ystumiau wrth eu hymarfer er mwyn helpu i'w cofio.

Mae'r dudalen cynnwys yn dweud wrthym ble mae popeth yn y llyfr – gallwn ddysgu am hanes yr amgueddfa ar dudalen 6, ar dudalen 44 gallwn ddod o hyd i wybodaeth am opera'r tylwyth teg.



## Pennod 1

## Tudalen 4 & 5

**Darllenwch y ddwy dudalen gyntaf.**

**Dewch i rannu**

Pwy sydd wedi bod i amgueddfa? Beth welsoch chi yno? Beth oedd eich hoff beth? Ble oedd yr amgueddfa? Cymru? Lloegr? Yn Ewrop?


**Dewch i ymweld**

Ewch ar ymweliad rhithiol i amgueddfa: Virtual Visits - in Lockdown | National Museum Wales, Video | Natural History Museum (nhm.ac.uk)

Staccato- clapiwch y curiad, Glissando – canwch i fyny ac i lawr.

**Dewch i drafod**

pwy yw ffrindiau gorau'r plant?



## Pennod 2


## Tudalen 6 & 7

**Dewch i siarad**

Ydych chi wedi bod i Llundain? Beth welsoch chi yno? Wyddoch chi pwy sy'n byw yn Llundain?

**Dewch i wneud**

Gém gardiau cyfateb parau / pwy neu beth sy'n byw ble -y Frenhines – Palas Buckingham.



## Pages 8 & 9

**Dewch i ddyfalu**

Sawl ffenest sydd yn y palas? Mwy na..? Llai na..? Odrif o ffenestri neu eilrif?

Pam ei bod yn bwysig i gadw gyda'n gilydd ar ymweliad?

**Dewch i ddarganfod**

Cyflwynwch hanes yr Amguedda Hanes Naturiol. Pa mor fawr yw morfil? (tua maint 8 bws)

**Dewch i feddwl**

Ble ydych yn meddwl mae nhw'n mynd nawr? (tud 9)?


Sut ydych chi'n meddwl mae Jac a Megan yn teimlo nawr?

**Dewch i greu**

Llunfap o'r Deyrnas Unedig – Darganfyddwch ble yn y Deyrnas Unedig mae esgyrn deinosoriaid wedi'u darganfod. Crewch fyd y deinosoriaid ddigidol gan ddefnyddio pecyn masnachol – ee paint.

**Dewch i ddynwared**

Crewch byd bach y deinosoriaid o fewn twba dwr gyda pridd, planhigion, cerrig a deinosoriaid plastig.



## Pennod 3


## Tudalennau 10 & 11

**Dewch i wrando**

Pwy oedd y brenin yn y gadwrfa? (Chwaraewch gân Y Brenin George- 'You'll be back' o Hamilton.)

Pwy oedd yn y cwpwrdd gwydr? Ai fe oedd yr hen ffrind?

Beth arall welwch chi yn y gadwrfa?



## Tudalenndau 12 & 13

**Dewch i ddarganfod**

Pethau sy'n fregus – sut gallwn ofalu amdanynt neu eu cludo'n ddiogel o un man i'r llall. Arbrofi gydag wyau – eu gollwng gyda deunyddiau amrywiol o'u hamgylch. Pa eiriau gallwn eu defnyddio am bethau bregus?

**Dewch i feddwl**


A ddylai Megan fod wedi chwalu'r gwydr? Beth gallai fod wedi digwydd?

Beth yw llawysgrifau cerddorol? (dangoswch enghreifftiau)

Fedrwch chi weld Megan a Jac yn y gist?

**Dewch i ddysgu**

Ymarferwch canu neu siarad mewn modd - Pianissimo a Forte.



## Pennod 4


## Tudalennau 14 & 15

**Dewch i ddarllen**

Ble mae Jac a Megan yn mynd? Pwy oeddynt yn mynd i'w gyfarfod y tro yma? Defnyddiwch y gair Fabelhaft.

**Dewch i ddarganfod**

Beth wnaeth y Groegiaid a'r Rhufeiniaid eu dyfeisio? Pa offerynnau newydd – a fedrwch chi eu gweld?



## Tudalennau 16 & 17

**Dewch i greu**

Crewch wig gan droi papur o amgylch pensiliau i'w wisgo.

**Dewch i ddysgu**

Bravi/ Grande - Eidaleg, Guten tag/ Danke - Almaeneg.

Y nodau – clapiwch gwerth y nodau.

**Dewch i gyfri**

Crewch mathemateg gerddorol gan ddefnyddio'r nodau ar fwrdd gwyn rhyngweithiol a'r plant i gynnig atebion ar fyrddau gwyn bach.

**Dewch i rannu**

Beth yw hoff ganeuon y plant? Hymiwch y caneuon.




## Tudalennau 18 & 19

**Dewch i ddyfeisio**

Dyfeisiwr yw rhywun sy'n creu rhywbeth am y tro cyntaf – dyfeisiwch eitem neu offeryn newydd i'r dosbarth

**Dewch i feddwl**

Welwch chi Haydn ar Hast? Pwy oedd un o'i ddisgyblion? Ysgrifenodd Beethoven nifer o sonatas – tynnwch lun o'ch athro/ athrawes tra yn gwrando ar sonata gan Beethoven.



## Tudalennau 20 & 21

**Dewch i ddarganfod**

Awstria – ble yn Ewrop mae Awstria? Oes rhywun wedi bod yno?

Ffilmiwyd y ffilm The Sound of Music yn Awstria. Dewch o hyd i Awstria ar fap neu glôb – pa mor bell ydyw o Gymru? Yr Alpau yw mynyddoedd uchel yn Ewrop, beth yw'r mynydd uchaf yng Nghymru?

**Dewch i ddawnsio**


Dysgwch y waltz a dawnsiwch gyda phartner.



## Tudalennau 22 & 23

**Dewch i ddisgrifio a pheintio**

Beth welwch chi yn y dyluniad? Peintiwch lun o lygaid aderyn o uwchben tref neu bentref, chwiliwch am luniau ar Google.



## Tudalen 24

**Dewch i gynlluio**

Cynlluniwch gorsedd i chi eich hunan –pa fath o batrymau a lliwiau fyddai arni?

Nodiadau Addysgu *ABC yr Opera: Clasurol*. Cedwir pob hawl. Ysgrifenwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.


GRAFFEG

## Pennod 5

## Tudalen 25

**Dewch i ddyfalu**

Pam mai Wolfgang Wyntog yw enw'r cyfansoddwr? Beth yw'r offeryn welwch chi ar dudalen 25?



## Tudalennau 26 & 27


Darllenwch y penillion i'r plant – beth gallwch gofio o'r darn?

Pwy arall ddaeth i gyfarfod Jac a Megan? Nannerl- Sawl un o'r plant sydd gyda brawd neu chwaer neu'r ddau?

O na! Beth ddigwyddodd nesaf?

**Dewch i symud**

Roedd Mozart yn hoffi symud fel cath –Symudwch fel gwahanol anifeiliaid. Defnyddiwch cerddoriaeth o'r sioe Cats yn gyfeiliant.




## Tudalen 28

**Dewch i ddarganfod**

Ble mae Fienna? Pwy sydd yn byw yno? Beth yw ymerawdwr? Dewch o hyd i wybodaeth am ymerawdwyr. Edrychwch am batrymau Rhufeinig.

**Dewch i flasu**

Daw nifer o fisgedi, cacennau o Fienna – beth am flasu neu goginio rhai ohonynt.




## Pennod 6

## Tudalennau 29, 30 & 31

**Dewch i ddychmygu**

Pe byddech chi yn gweld Beethoven, beth fyddech yn meddwl ohonno? Sut ddaeth ef yn enwog?



## Tudalennau 32, 33, 34 & 35


**Dewch i gymharu**

Beth yw'r gwhaniaeth rhwng Beethoven a Mozart?

**Dewch i ddysgu**

Gwahoddwch rhywun i ddysgu iaith y byddar i'r plant.


Holwch y plant os oeddynt arfer gwylio Mr Tumble – a fedrant gofio rhai o'r 'stumiau? Anogwch y plant i stumio rhai geiriau i'w ffrindiau.



## Tudalennau 36 & 37

**Dewch i ddisgrifio**

Beth welwch chi yn y llun? Beth sy'n disgwydd?



## Tudalennau 38 & 39

**Dewch i feddwl**

Pam gwnaeth Beethoven lifo y coesau o’r piano? Roedd am deimlo’r cryniadau – tybed sut fyddai’n teimlo i fod yn fyddar, rhestrwch y 5 sain byddech yn gweld eu heisiau fwyaf.




## Pennod 7

## Tudalennau 40, 41, 42 & 43

**Dewch i ddarganfod**

O ble rydych yn meddwl mae Rossini yn dod? Oes cliwiau i’n helpu ni ddyfalu? Darllenwch y penillion i helpu’r plant.

Ydy Rossini yn edrych yn debyg i Mr Go-compare? Brawd yr awdur yw Mr Go-compare!

**Dewch i feddwl**

Sawl peth medrwch chi eu rhestri sy’n goch, gwyn a gwyrdd?

**Dewch i ddynwared**


Crewch cardiau o’r gwahanol gymeriadau o’r llyfr a basged o bropiau i’r plant eu hactio– gan ddefnyddio symudiadau ac acenion.

**Dewch i ddarganfod**

Beth yw ofergoelion? Holwch y plant i ofyn adref os yw eu teulu’n ofergoelus? Holwch yr athrawon yn yr ysgol – gwnewch restr ohonynt a’u rhoi ar yr arddangosfa.

**Dewch i feddwl**

Sawl gwahanol ffordd mae hanes Sinderela wedi ei chyflwyno– stori, ffilm, bale, ac opera – a fedrwch chi ddyfalu ffyrdd eraill gallai gael ei chyflwyno?




## Pennod 8


## Tudalennau 44 & 45

**Dewch i ddynwared**

Ail greu stori Sinderela drwy feimio fesul grwp.

**Dewch i ddarganfod**

Maint esgidiau –danfonwch lythyr adref yn gofyn am hen esgidiau glan– defnyddiwch yr esgidiau i gymharu, i drenfu a dosbarthu neu efallai i agor siop esgidiau chwarae rôl.




## Tudalennau 46 & 47

**Dewch i feddwl**

Pam oedd yr ymerawdwr mor grac/ flin? A fyddai wedi bod yn syniad da i Mozart briodi ei ferch?

**Dewch i ddyfalu**

Sut fyddech yn teimlo pe byddai milwyr yn eich cwrso? Meddyliwch am eiriau i ddisgrifio sut fyddech yn teimlo. Pam bod angen milwyr ar yr ymerawdwr?



## Tudalen 48

**Dewch i greu**

Rhoddodd Mozart anrheg arbennig i Jac a Megan. Ceisiwch greu ffliwt hud o welltyn neu bibell – Gwrandewch ar gerddoriaeth y ffliwt hud..

## Pennod 9

## Tudalen 49

**Dewch i symud**


Dychmygwch eistedd tu fewn i Cist tra roedd yn gwyro a chwympo drwy'r awyr - mae'r ddaear yn agosai yn gyflym, sut wnewch chi sicrhai na fyddwch yn cael eich brifo?



## Tudalennau 50 & 51

**Dewch i ddisgrifio**

Beth fedrwch weld yn y darlun/ llun? Pwy sydd wedi bod i Ffrainc neu i Baris?  Beth welsoch yno? Chwaraewch gem gyfateb, cyfateb ffotograffau gyda'r darlun yn y llyfr.




## Tudalennau 52 & 53

**Dewch i ddarganfod**

Gwrandewch ar stori Chevalier, pam ei fod ef mor arbennig? Beth oedd pobl yn ei alw?

Chwyrligwgan – ydych chi erioed wedi teimlo fel chwyrligwgan? Pryd?




## Pennod 10

## Tudalennau 54, 55, 56 & 57

**Dewch i ddarganfod**

Beth oedd y gílotin? Pam fyddai pobl yn cael eu danfon i'r gílotin? Sut oedd Jac a Megan yn teimlo tybed?

Pwy oedd Guto Nyth Brân?



## Tudalennau 58, 59, 60 & 61

**Dewch i ddarlunio**


Daeth Brenhines y Nos Mozart allan o'r ffliwt– gwnewch lun o anghenfil neu berson erchyll a fedr ymddangos o'r ffliwt a disgrifiwch y cymeriad.

Pwy ddaeth i achub y dydd? Pwy yw'r cyntaf yn y llinell sy'n canu? Yr ail?... Pedwarawd ydynt– ydych chi'n cofio ystyr pedwarawd?

**Dewch i ddisgrifio**

Meddyliwch am eiriau i ddisgrifio gwahanol synau – lleisiau, sgrechian, twitian, mwmian, cerbydau'n rhuo... ysgrifennwch bennil am y synau swnllyd.


Nodiadau Addysgu *ABC yr Opera: Clasurol*. Cedwir pob hawl. Ysgrifenwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.



## Tudalen 62 & 63

### Dewch i ddyfalu

Pwy arall sy'n defnyddio offer fel rhan o'u gwaith? Meddyliwch am eitemau mewn storiau a phenillion sy'n bwysig e.e. yn stori Jac ar Goeden Ffâ, hudlath Harry Potter, esgd Sinderela. Roedd baton Proffesore Peri yn bwysig iawn – yn debyg i hudlath – pe byddech yn medru hudo rhywbeth beth fyddech yn ei wneud?



## Pennod 11


## Tudalen 64 & 65

### Dewch i ddarganfod

Ewch i amgueddfa gerllaw, ymchwiliwch i weld y rhai sy'n agos i'r ysgol/i'ch cartref.

### Dewch i ad-alw


Pwy wnaeth Megan a Jac gyfarfod y tro yma? Beth oedd enw'r grwp yma? – Y Clasuron. Ble fuon nhw y tro yma?Pwy oedd eich hoff gymeriad?



## Pages 66, 67, 68 & 69

### Dewch i ddarganfod mwy

Dysgwch mwy am y cyfnod Clasurol a'r cyfansoddwyr, pobl enwog eraill a digwyddiadau.


ABC yr OPERA

ACADEMI BENWAN Y CYFANSODDWYR

CLASUROL

*'Mae cyfrol Academi Benwan y Cyfansoddwyr yn llawn dop o ffeithiau difyr a hwyl, ac mae'r lluniau'n odidog. Mae'n ffabiwlws ym mhob ffordd.'*
Joanna Lumley

*'Dyw hanes cerddoriaeth Glasurol erioed wedi bod mor ddifyr!'*
Cerddorfa Plant Prydain

*'Stori sy'n apelio, yn addysgu ac yn rhoi mwynhad. Mae'n bleser i'w darllen.'*
Athro Teresa Cremin, Y Brifysgol Agored

Ar drip ysgol i'r Amgueddfa Hanes Naturiol yn Llundain, mae Jac a Megan yn dod ar draws eu hen ffrind, Cist. Mae'r tri yn mynd ar wib yn ôl i Academi Benwan y Cyfansoddwyr ac i ddinasoedd Salzburg, Fienna a Pharis, gan fentro ar antur arall i fyd yr opera – i'r cyfnod Clasurol (1750–1820). Y dasg y tro hwn yw achub cerddoriaeth a straeon Wolfgang Wyntog (sef Mozart talentog ond tlawd), Tortellini Rossini (brenin y bwyd) a Beethoven rhag diflannu, ond a fyddan nhw'n ddigon dewr i herio creadigaeth fwyaf brawychus Mozart?

Dewch gyda ni ar ail ran y daith ryfeddol hon drwy hanes opera, taith na welwyd ei thebyg o'r blaen.

**Cyfres Academi Benwan y Cyfansoddwyr:**
1. Baróc
2. Clasurol
3. Rhamantaidd
4. Modern

www.graffeg.com

£8.99

9 781913 634254

Ffuglen Plant

GRAFFEG

## Clawr Cefn

Beth welwch chi? Y broliant – disgrifiad byr o'r stori.

Ysgrifenwch broliant eich hoff lyfr.

Mae rhestr o'r llyfrau yn y gyfres ar y clawr.

Rhif ISBN – mae gan bob llyfr un o'r rhain, yn debyg i'n print bawd ni mae'n unigryw i bob llyfr.

GRAFFEG yw'r argraffwyr – chwilotwch am wybodaeth pellach am y llyfrau maent yn argraffu – gwnewch restr o'r llyfrau gan Graffeg hoffech gael yn y dosbarth.

ABC YR OPERA:

**ABC yr Opera: Y Baroc**
ISBN 9781913134266

**ABC yr Opera: Clasurol**
ISBN 9781913634254